

Cip ar Hanes ac Ystyr Enwau Lleoedd ac Amaethdai yn Nyffryn Afan (1889)

YMHLLITH dyffrynnoedd Cymru nid yr enwocaf na'r harddaf ydy Dyffryn Afan (Cwmafan) sy'n disgyn o'r blaenau rhwng y bryniau i lawr i'r arfordir ym Mhorth Talbot. Ond canu ei glodydd i'r cymylau wnâi'r brodorion. Yn ei draethawd buddugol yn Eisteddfod Aberafan (1853) 'Dechrau a Chynydd Gweithiau Cwmafan' (a gyfieithwyd gennyf i'r Saesneg ym 1986 gyda'r teitl *'In the Valley Long Ago'*), sgrifennodd John Rowlands (gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghwmafan) yn frwdfrydig am y dyffryn fel hyn: 'Wyt braidd fel Caersalem a'th fryniau o'th amgylch'. Gormodiath yn ddiamau, ond 'Cas gŵr na charo'r wlad a'i maco'.

Hanai fy nhad o Ddyffryn Afan. Cafodd ei eni ym 1884 a phan oedd yn fachgen, roedd yn uniaith Gymraeg. Siaradai'r Wenhwyseg swynol, a dwi'n cofio'n glir nawr ei ebychiadau tafodieithol fel 'Jawch Ariodi' ac 'Iffach Wyllt'. Ond yn y drychineb ofnadwy a ddiodeffodd y Gymraeg yn y ganrif ddiwethaf, ces i fy magu ym Mhorth Talbot heb air o'r iaith. Ym marn fy rhieni byddai'r Gymraeg yn rhwystr i lwyddiant yn y byd.

Ond dyma beth od! Ar ôl i mi ymadael â Chymru, dechreuais deimlo rhyw chwithdod yn y gwythiennau. Cychwynnais ddysgu'r Gymraeg, a thrwy'r blynyddoedd, yn boenus o araf, rwy'i wedi ail gipio ynys fechan o'r filltir sgwâr lle trigai'r Cymry. Hawdd colli iaith ond hir a chaled ydy'r llwybr i'w hadennill.

Yn y 60au yn siop y llyfrwerthwr Galloways yn Aberystwyth fe brynais gyfrol, *Aeron Afan*, casglaid o gynigion buddugol yn Eisteddfod yr Iforiaid yn Aberafan ym 1853. Yn eu plith roedd traethawd John Rowlands. Ym 1986, pan own i'n byw yn ninas Efrog Newydd, gan fod y llyfr yn brin iawn ac allan o gyrraedd y cyhoedd uniaith Saesneg, ymrois i'r gwaith o gyfieithu ac argraffu gwaith Rowlands. Dosberthais bum cant o gopiau i lyfrgelloedd, ysgolion ac unigolion yn Nyffryn Afan a Phorth Talbot, fel teyrnged fach i'm rhieni ac i bobl y cwm.

Yn fuan wedi hynny, fe dderbynais llythyr caredig oddi wrth Mr. John Lyons a hanai o Faesteg yn wreiddiol ac sy'n byw nawr yn Templeton, Arberth, Sir Benfro. Tynnodd fy sylw at lyfr oedd yn ei feddiant, *Hanes Ystyr Enwau Lleoedd ac Amaethdai yn Nyffryn Afan*, gan Madog Fychan (Daniel Evans, Cwmafan), oedd yn draethawd cyd-fuddugol yn Eisteddfod Cwmafan, Nadolig 1889. Argraffwyd ef gan Llewellyn (sic) Griffiths, Cwmafan. 'Does dim copi na dim cofnod o'r llyfr hwn yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond bu Mr Lyons mor garedig ag anfon llungopi ataf. Byddwn yn hapus clywed gan unrhyw un o ddarllenwyr *Y Casglwr os oes copi yn ei feddiant*. Sut bynnag, ar ôl oedi am ddeunaw mlynedd, llwyddais yn y diwedd i gyfieithu'r llyfr i'r Saesneg ac i'w gyhoeddi llynedd (2004) fel *Place Names of the Afan Valley*.

Gŵr gwlatgarol ac ieithgarol iawn oedd Daniel Evans. Wrth astudio'r hen enwau yn y cwm dywed nad 'cenedl anwybodus, hanner barbaraid' oedd yr hen Gymry ond, yn hytrach, 'cenedl o ysgolheigion naturiol

a bathent enwau i gyfateb i ffurfiau a dullweddau'r lleoedd'. Mae'n galaru o achos goresgyniad y Normaniaid, goresgyniad a dreisiodd annibyniaeth y Cymry. Da ganddo'r syniad bod 'eu hen sefydliadau pabyddol, eu mynachlogydd, eu llysoedd a'u cestyll cedyrn yn nythleoedd i ysytlumod a dylluanod'. Ymfrostia yn nerth diwydiannol y dyffryn ond y mae tyndra yma rhwng balchder ac edifeirwch o achos y niwed a wnaiff y diwydiant i harddwch naturiol y cwm. Dyfynna linellau bywiog i ddisgrifio trais y tir.

Rhwygo, cloddio coluddion
Agor bru y wig, o'r bron ...
Dwyn talpiau o'r creigiau crog
Torchi y bryn tywarchog.

Ond, cyn hir, ymfalchïa unwaith eto yn ysblander y dyfodol economaidd. 'Dyger allan ei drysorau cuddiedig ar ein llesiant tymhorol ac yn eu pwys ymddyrfachwn ym mhob gwybodaeth a rhinwedd yn ogyfuwch ag unrhyw genedl o'n hamgylch.'

Ar ôl y rhagymadrodd mae'r llyfr yn mynd ymlaen fel parthysylludd (*gazetter*). Yn ymddyrfachu uwchlaw'r cwm oedd stac (corn simnai) uchel yn ymwithio allan o gopa Moel Mynyddau. Hen ffumer (*fumiduct*) oedd a adeiladwyd i sugno'r mwg gwenwynlyd oddi ar hen waith efydd Cwmafan ac i'w wasgaru i bob cyfeiriad. Dinistrwyd Stac y Foel (fel y gelwid ef) yn ystod yr Ail Ryfel Byd am ei fod (medden nhw) yn dirnod i awyrennau bomio'r Almaenwyr. Dyfynna Evans englyn gan Rhydderch ap Morgan i ddathlu'r stac:

Corn uchel anhefelydd - ar goryn
Oer garw'r Foel Fynydd
Yw'r Pffumer, o bellder bydd
Yn weladwy i wledydd.

Wrth fynd heibio i Gwmafan ar y ffordd i fyny'r dyffryn fe ddown at Bontrhydyfen, cartref genedigol yr actor enwog Richard Burton (neu Richie Jenkins fel yr adwaenwn i ef yn yr ysgol ramadeg). Ymhellach i fyny'r cwm saif pentref Cymer; lle cywilyddus yn yr hen ddyddiau yn ôl Daniel Evans, am fod yno ddau dafarnyda a dim ond un capel. I'w gondemnio, fe gyfansoddodd Gruffydd Gruffydd, hen wr dall, y cwpled llym hwn:

Cymmer - nid da ei ganmol
Un tŷ i Dduw a dau i'r diafol.

Ym 1889 roedd lampau crefydd yn dal i ddisgleirio'n llachar yn y dyffryn. Yn y parthysylludd sonia am Penhydd Fawr, amaethdy ar y mynydd ar du deheuol afon Afan. Acw trigai Jenkin Rees a adwaenid fel Siencyn Penhydd (Apostol Mawr Penhydd). Pregethwr efengylaidd oedd ef, yn enwog trwy'r ardal am ei bregethu ac am wasanaethu yng nghapel anghysbell Gyfylchi yn y dyffryn. Arferai torfeydd o Aberafan, Castell-nedd a Phen-y-bont ymgasglu yng Ngyfylchi bob Sul i wrando ar y pregethwr mawr. Mor enwog oedd Siencyn Penhydd fel nad yw Evans, wrth gyfeirio ato, yn teimlo'r angen i egluro pwy oedd. Ond heddiw ychydig o bobl y dyffryn sydd wedi clywed sôn amdano.

Yn Nhy'n yr Heol, hen amaethdy ar ben

DYFFRYN AFAN.

HANES, YSTYR, AC ENWAU
Lleoedd ac Amaethdai,
IN
NYFFRYN AFAN.

TRAETHAWD CYD-FUDDUGOL

Eisteddfod Cwmafan, Nadolig 1889,

D. EVANS (Madog Fychan),
CWMAFAN.

CWMAFAN:
Llewellyn Griffiths, Argraffydd, &c., Pelly Street.

y mynydd rhwng Cwmafan a Llansawel (Briton Ferry), roedd dau losgwr siarcol yn preswyllo, Siôn Bowen a Tomas Rhys (Twm Tân). Sefydlwyd ysgol Sul yn y tŷ dan nawdd y Bedyddwyr o Faglan, a Siôn a Twm yn arolygwyr. Un prynhawn Sul garw a stormus, dysgynnodd yr awen ar Siôn a Twm a chyfansoddasant emyn:

Mae llif ym mhob afon,
A fflam ym mhob tŷ
Ni ganwn yn dawel,
Ni ganwn yn dawel
A Duw gyda ni.

Ond nid oedd pawb yn y dyffryn mor foesol a chrefyddol, hyd yn oed yn nyddiau Daniel Evans. Y drws nesaf i eglwys Llanfihangel yng Nghwmafan safai tafarn y Fox and Hounds (Tafarn y Fynwent) oedd yn boblogaidd iawn gan ffermwyr y blaenau. Peth cyffredin fyddai gweld hen amaethwr yn dod i lawr i'r dafarn ac yn aros yno am wythnos neu ragor. Dywed Daniel Evans i Llywelyn o Gastell Gadarn fynd â llo lawr i Aberafan i'w werthu a chafodd ddeunaw swllt amdano. Wrth ddychwelyd adref galwodd yn y Fox ac arhosodd yno am wythnos. Wedi cyrraedd adref, gofynnodd ei wraig iddo, 'Ble mae arian y llo, Llywelyn?' 'Pw, Pw,' meddai yntau, 'taw sôn, beth yw slebyn bach o lo, gwêd?'

Dyffryn cyfoethog ei hanes, ei bobl, ei farddoniaeth a'i ffraethineb oedd y gymuned yn nyddiau Daniel Evans. Cefais hwyl wrth ddarllen ei lyfr a'i gyfieithu a minnau'n trigo yn America. 'Teg edrych tuag adref'.

Os carech gael copi o *In the Valley Long Ago* neu *Places Names of the Afan Valley*, ysgrifennwch at: Gwasg Corlannau, 5 Woodcock Road, West Nyack, New York 10994, USA neu anfonwch e-bost at: cwmgarw@optonline.net

(Ganwyd yr awdur yn Mhorth Talbot ac aeth i'r ysgol uwchradd yno. Gorfennodd ei yrfa ddisglair ym myd addysg yn Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Efrog Newydd.